


Cyhoeddiadau'r Tabernacl

Merched y Tab
Dydd Mercher 22 Mehefin

Gweithgor Gweinidogaethu
Cyfarfod prynhawn 'ma am 4

Ymweliad â Llangynwyd gydag Allan James
Cwrdd wrth Eglwys Llangynwyd am 11am.



Cinio / byrbryd i ddilyn yn y Tŷ Cornel.
Judith 01443 218077

BANC BWYD PONTYCLUN

Os ydych chi'n awyddus i ymuno â'r
criw brwdfrydig sy'n helpu gyda
chasgliad Tesco ar gyfer y Banc Bwyd,
mae'r casgliad nesa dydd Iau, Gwener,
Sadwrn, - Mehefin 30, Gorffennaf
1,2. Cysylltwch ag Ann Dwynwen am
fwy o wybodaeth: 029 2089 3144
ann.pentyrch@btinternet.com

Mehefin 12

Eirian, gyda Helen Prosser yn llywyddu.
Taflen a Sgrin, Nia Williams

Mehefin 19

Lyn West a Chriw Nant Celyn

Mehefin 26

Geraint Rees gydag Ann Griffiths yn
llywyddu



Mae casgliad Cymorth Cristnogol Efail Isaf
eleni wedi cyrraedd **£1,503** Diolch yn
fawr iawn i'r criw ffyddlon arferol fu'n casglu a
chyfrif, ac i John Llew am drefnu a chydlynu'r
cyfan. Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gyfrannu.

TAFOD Y TAB

Rydym yn chwilio am olygydd/golygyddion i'r rhifyn
nesaf o *Tafod y Tab* sydd i fod i weld golau dydd erbyn
diwedd Mehefin neu ddechrau Gorffennaf. Os ydych yn
fodlon bod yn gyfrifol amdano neu i rannu'r gwaith
rhowch wybod i Emlyn Davies
(emlyn.davies@which.net) neu Gwilym Huws
(gehpengwern@yahoo.co.uk) erbyn dydd Sul 12fed o
Fehefin.

CASGLU DILLAD

Diolch yn fawr i bawb gyfrannodd mor hael at y
casgliad i ddilladu plant bach mewn
gweryslyoedd ffoaduriaid. Mae'r dillad eisoes ar
eu ffordd i Wlad Groeg. Mae'r hanes yn llawn,
ynghyd â lluniau, ar wefan y capel. Byddwn yn
dechrau casglu dillad gaeaf ym mis Medi, a
dillad haf eto yn y gwanwyn.

Bydd y casgliad i helpu teuluoedd lleol mewn
argyfwng yn dechrau pan fydd John Llew yn
clywed gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gorffennaf 3 ydd

Y Parch Gethin Rhys gyda Gwerfyl Morse.
Taflen gan Gwerfyl, sgrin gan Huw Rees

Gorffennaf 10fed

Sul y Cyfundeb ym Mhenarth

Gorffennaf 17

Sul i'r Teulu, gyda picnic/gemau yn y parc i
ddilyn

GORWELION NEWYDD

Un arall o elusennau'r capel ar gyfer 2016

Mae New Horizons Mental Health Resource Centre, Aberdâr yn gweithredu ystod o ganolfannau yn cynnig adnoddau ac yn estyn llaw i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl ac emosiynol yn RhCT. Mae'r Ganolfan yn hybu delwedd bositif ac yn herio gwahaniaethu ar sail iechyd drwy gyfrwng addysg, gweithio yn y gymuned, rhannu gwybodaeth, a chynnig cefnogaeth, ac yn cynnal prosiect arbennig i bobl ifanc rhwng 18 a 25.

Pwyllgor Apêl yr Urdd Efail Isaf a Phentre'r Eglwys yn y Carpenters
Nos Fawrth 7 Mehefin 7:30pm



NEW HORIZONS
Mental Health & Emotional Wellbeing Centre

Mae rhifyn newydd o gylchgrawn **Agora**
nawr yn fyw ar wefan

www.cristnogaeth21.cymru



aradgoch
yn cyflwyno

Diwrnod Hyfryd Sali Mali

Gyda chydweithrediad Gwasg Gomer

Cynhyrchiad newydd sbon gan Gwmni Theatr Arad Goch sydd yn eich tywys i fyd anturus, hudolus ac arbennig Sali Mali.

27/06/16
£8 / £25
6pm
01443 219589
www.gartholwg.org

Theatr Gartholwg Theatre - 01443 219589
www.gartholwg.org | reception@campwsartholwg.org.uk
Gartholwg Lifelong Learning Centre @gartholwgllc

Triongi

MIRAMAR

£10/£9
7:30PM
15/06/16

Theatr Gartholwg Theatre - 01443 219589
www.gartholwg.org | reception@campwsartholwg.org.uk
Gartholwg Lifelong Learning Centre @gartholwgllc

